Cofnodion cyfarfod hybrid y **PWYLLGOR CYLLID A MATERION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd nos Fercher, 7 Mai 2025, am 6.00pm.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, Mrs J. M. Evans, S. Feeney, A. R. James, K. R. Jones, Mrs D. L. King, B. Mellor, W. Price, Ms R. Roberts, Ms V. Roberts ac A. Walker.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Mrs H. J. Mead – Dirprwy Glerc y Dref
Mrs T. A. Jones – Swyddog Dinesig a Chymorth Gweinyddol

**82. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Mrs M. A. Blakeley-Walker, Mrs J. Butterfield YH MBE, Ms J. L. McAlpine a Miss C. L. Williams.

**83. DATGAN BUDDIANNAU**

Gofynnodd y Dirprwy Glerc a oedd gan aelodau unrhyw fuddiant personol a/neu fuddiant sy'n rhagfarnu i'w ddatgan yng nghyswllt unrhyw eitem o fusnes i'w ystyried ar yr agenda.

Datganodd y Cynghorydd Mrs D. L. King fuddiant personol yn eitem agenda rhif 8 (Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig: Digwyddiadau arfaethedig yn y Rhyl yn 2026) oherwydd ei swydd fel aelod anweithredol o Fwrdd Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig.

**84. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A)**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn rhoi manylion y taliadau a wnaed a'r incwm a dderbyniwyd.

| Rhif Taleb: | Enw'r cyflenwr | Swm | Disgrifiad y nwyddau / gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| Amherthnasol | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol |
| 1994 | BT | 544.58 | Llogi llinellau ffôn a band eang |
| 1995 | HSBC | 8.00 | Ffi bancio |
| n/a | Tesco | 12.99 | Ffi ffôn symudol |
| 1998 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 8,644.29 | Cyflogau net – mis Ebrill 2025 |
| 1996 | Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi | 3,103.96 | Didyniadau Talu wrth Ennill – mis Mawrth 2025 |
| 1997 | Cyngor Sir y Fflint – Cronfa Bensiwn Clwyd | 3,269.74 | Didyniadau pensiwn – mis Mawrth 2025 |
| 1999 | Cyngor Sir Ddinbych | 836.00 | Ardrethi annomestig y Swyddfeydd Dinesig 2024/25 – taliad 1 o 10 |
| Amherthnasol | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol |
| Amherthnasol | Tesco | 12.99 | Ffi ffôn symudol |
| | **Cyfanswm y taliadau** | **£16,438.55** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| Santander | Llog ar y cyfrif hysbysiad 31 diwrnod | 241.84 |
| Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi | Hawliad Treth ar Werth Chwarter 4 | 11,594.83 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif adneuo un mis a aeddfedodd ar 24 Ebrill 2025 | 1,010.59 |
| Cyngor Sir Ddinbych | Praesept 2024/25 – 1 o 3 | 193,333.33 |
| | **Cyfanswm yr incwm** | **£206,180.59** |

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chymeradwyo'r adroddiad.*

## 85. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADDAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017, ac yn unol â rheolau sefydlog mabwysiedig y Cyngor, cyfeiriodd y Cadeirydd at Atodlen B a gyflwynwyd gan Glerc y Dref (rhestr o daliadau nad ydynt yn daliadau rheolaidd i'w rhyddhau yn ystod y mis nesaf) (a ddosbarthwyd gyda'r agenda).

| Rhif Taleb: | Cyflenwr | Manylion y cyflenwad | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 2008 | Sandra Williams | Gwasanaeth cyfieithu | 268.62 |
| 2009 | Archwilio Cymru | Ffi archwilio allanol 2022/23 | 462.00 |
| 2010 | *GK Beaulah & Co Ltd | Tarianau Cyngor Tref y Rhyl | 706.00 |
| 2011 | *Cyffrif Maer y Rhyl | Trosglwyddo'r arian a godwyd i'r cyfrif newydd gyda banc Lloyds | 769.33 |
| | **Cyfanswm Atodlen B** | | **£2,205.95** |

*cyflenwyr newydd

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen i'w thalu i'w llofnodi gan ddau gynghorydd.*

## 86. CYFRIFON TERFYNOL 2023/24 – ALLDRO DARPARIAETHOL A CHRONFEYDD WRTH GEFN 2024/25

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad ar y cyd Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) gan ofyn i'r aelodau nodi'r amrywiadau allweddol a ragfynegir a gwarged o £12,960 am y flwyddyn a chymeradwyo cronfa wrth gefn benodol o £100,000 ar gyfer Prosiectau'r Maer, £7,000 ar gyfer Etholiadau a £1,000 ar gyfer Eitemau Dinesig.

***PENDERFYNWYD*** *fod yr aelodau'n nodi'r rhagfynegiadau ac yn cymeradwyo'r trosglwyddiadau i'r cronfeydd wrth gefn penodol.*

## 87. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn gofyn am gadarnhad yr aelodau ynghylch cynnydd y Cyngor Tref yn

erbyn Nodau Llesiant Llywodraeth Cymru a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych yn 2023/24.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad i'w gyhoeddi ar wefan y Cyngor Tref.*

**88. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau busnes a ganlyn, yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, ar sail cyfrinachedd.*

**89. HAMDDEN SIR DDINBYCH CYFYNGEDIG: DIGWYDDIADAU ARFAETHEDIG YN Y RHYL YN 2026**

Hysbysodd y Cadeirydd y derbyniwyd ymateb mewn cyfrinachedd gan Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig i gais y Cyngor Tref i roi costau adleoli'r tri digwyddiad arfaethedig i leoliadau mwy canolog.

Yn dilyn trafod manteision pob digwyddiad, ***PENDERFYNWYD*** *fod yr aelodau'n derbyn y costau uwch a nodwyd i leoli'r ddau ddigwyddiad yn yr haf i'r Arena Digwyddiadau ac i gymryd y diffyg o'r cronfeydd wrth gefn. Dewisodd yr aelodau gadw'r digwyddiadau Nadolig yn y lleoliadau a gynigiwyd yn wreiddiol, heb gynnydd yn y costau.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *ohiro'r Rheolau Sefydlog i alluogi Clerc y Dref i ymateb fel mater o frys.*

**90. DIWEDD Y CYFARFOD**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod, cyhoeddodd y Cadeirydd ddiwedd y cyfarfod.

Llofnod: ……………..…………

Dyddiad: ………………………...